# Prifysgol Bangor

## Cynllun Gweithredu - Adolygiad Gwella Ansawdd 2024

Cynhelir yr Adolygiad Gwella Ansawdd bob chwe blynedd, a dyma sut mae’r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd o dan Fframwaith Asesu Ansawdd Medr (HEFCW gynt) yn adolygu darparwyr addysg uwch Cymru.

Ymwelodd y tîm adolygu â'r Brifysgol ym mis Rhagfyr 2024 i gwrdd â myfyrwyr, staff a darparwyr lleoliadau.

Cadarnhaodd yr adolygiad y canlynol:

- Bod Prifysgol Bangor yn **cyflawni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol.
- Bod Prifysgol Bangor yn **cyflawni** gofynion rheoliadol sylfaenol perthnasol Fframwaith Asesu Ansawdd Cymru.

Mae hyn yn ddyfarniad cadarnhaol, sy'n golygu bod gan y Brifysgol drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, rheoli ansawdd academaidd a gwella ansawdd profiad myfyrwyr.

Ni fu i’r tîm adolygu wneud unrhyw argymhellion.

Mae'r cynllun gweithredu hwn wedi'i ddatblygu ar y cyd gan y Brifysgol ac Undeb y Myfyrwyr. Mae datblygu cynllun gweithredu yn dilyn yr ymweliad adolygu yn rhan annatod o'r broses Adolygiad Gwella Ansawdd.

Bydd y Grŵp Adolygu Gwella Ansawdd yn cadw golwg ar sut y cyflawnir y cynllun gweithredu, ac adroddir ar hyn drwy'r Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr.

| Cymeradwywyd | Gweithredu | Cyfrifoldeb | Canlyniad | Dyddiad targed ar gyfer cwblhau - |
|---|---|---|---|---|
| 1. Y berthynas gref rhwng y Brifysgol a’r myfyrwyr, lle mae barn ac adborth myfyrwyr yn flaenllaw mewn mentrau/projectau i gyfoethogi profiad myfyrwyr. | Parhau i feithrin y berthynas gref rhwng y Brifysgol a myfyrwyr drwy fecanweithiau presennol a gwell. Mae enghreifftiau o welliannau yn cynnwys ailgynllunio’r ddesg gymorth i fyfyrwyr, gwell tudalennau gwe a chyfeirio at wasanaethau a gwaith y Grŵp Cyflawni Profiad Myfyrwyr. | Dirprwy Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr<br><br>Llywydd Undeb y Myfyrwyr | Mae'r berthynas gref rhwng y Brifysgol a myfyrwyr yn parhau i sicrhau y defnyddir adborth i wella profiad dysgu myfyrwyr. | Parhaus |
| 2. Y ffaith fod y Gymraeg a dwyieithrwydd wedi gwreiddio’n ddwfn yn niwylliant y Brifysgol i’r fath raddau, a hynny er budd amlwg yr holl staff a myfyrwyr mewn perthynas â chyfleoedd dysgu ac ymdeimlad o berthyn. | Parhau i hyrwyddo a gwreiddio’r Gymraeg a dwyieithrwydd yn niwylliant y Brifysgol. Mae enghreifftiau yn cynnwys; projectau a ddarperir gan Ganolfan Bedwyr i annog defnydd o’r Gymraeg a datblygu hyder wrth ddefnyddio’r Gymraeg, cyflwyno modiwlau cyfrwng Cymraeg traws-golegol i sicrhau cynaliadwyedd y ddarpariaeth a gwella profiad myfyrwyr trwy gynyddu niferoedd myfyrwyr ar fodiwlau, a’r Undeb ac UMCB i rannu | Dirprwy Is-ganghellor y Gymraeg a Diwylliant Cymru<br><br>Llywydd UMCB | Cynaliadwyedd y ddarpariaeth a pharhau i ddarparu profiad dysgu Cymraeg a dwyieithog o ansawdd uchel i fyfyrwyr. | Parhaus<br><br>Mai 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | canfyddiadau, canmoliaethau ac argymhellion o’r Adroddiad Dirnadaeth Profiad Myfyrwyr Cymraeg. | | | |
| 3. Y gefnogaeth helaeth ac ymatebol sydd ar gael yn academaidd ac yn fugeiliol, er mwyn helpu i gefnogi anghenion myfyrwyr drwy gydol eu cyfnod yn y Brifysgol. | Parhau i gefnogi myfyrwyr yn effeithiol ac effeithlon trwy gydol eu hamser yn y Brifysgol, o fewn ffiniau’r Achos Busnes dros Newid, sy’n cael ei ddatblygu yn 2025. Er enghraifft, datblygu ymhellach y llwybrau atgyfeirio i wasanaethau allanol ac ymwreiddio ethos gwydn a rhagweithiol tuag at gefnogaeth ymhlith y boblogaeth myfyrwyr. | Dirprwy Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr<br><br>Cofrestrydd Academaidd | Gweithredu'r Achos Busnes dros Newid yn effeithiol gan sicrhau parhad gwasanaethau hanfodol. | Rhagfyr 2025 |
| 4. Y gwerth mawr a roddir ar ddatblygu staff a’r modd y gwneir hynny ledled y Brifysgol, sydd o fudd sylweddol i allu staff a myfyrwyr i ddysgu. | Parhau â'r diwylliant o roi gwerth sylweddol ar ddatblygiad yr holl staff sy'n ymwneud ag addysg a phrofiad myfyrwyr. Mae enghreifftiau'n cynnwys dal ati i hyrwyddo'r rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus, monitro hyfforddiant gorfodol a hyrwyddo ymhellach y gydnabyddiaeth i staff y gwasanaethau proffesiynol. | Dirprwy Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr<br><br>Prif Swyddog Pobl | Mae staff yn cymryd rhan mewn hyfforddiant ac yn datblygu gwybodaeth ynghylch yr arferion gorau yn eu maes arbenigedd. | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 5. Gweithredu'r Fframwaith Cywerthedd Asesu i sicrhau tegwch a chysondeb mewn arferion asesu o fewn disgyblaethau a rhwng disgyblaethau. | Ymgorffori'r Fframwaith Cywerthedd Asesu ar draws y sefydliad. Cyflawnir hyn trwy integreiddio gofynion i ddigwyddiadau dilysu/ail-ddilysu, trwy ddiwrnodau cwrdd i ffwrdd addysgu a dysgu mewn ysgolion a monitro sgoriau asesu ac adborth yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr. | Dirprwy Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr<br><br>Cyfarwyddwyr addysgu a dysgu'r ysgolion<br><br>Uned Gwella Ansawdd | Mae'r Fframwaith Cywerthedd Asesu wedi'i ymgorffori'n llawn ar draws y Brifysgol. | Cylch gweithredu drwy'r broses ail-ddilysu/dilysu (cylchred wedi'i chwblhau erbyn Medi 2029) |
| 6. Integreiddio a defnyddio data'n systematig i lywio prosesau sicrhau ansawdd, hwyluso cefnogaeth wedi'i theilwra i fyfyrwyr, ac i fod yn sail i welliannau wedi'u targedu. | Parhau i wreiddio ymhellach y defnydd systematig o ddata ym mhob rhan o brosesau sicrhau ansawdd a chymorth. Mae enghreifftiau yn cynnwys project adrodd y Bwrdd Arholi a gwiriad iechyd y rhaglen ac integreiddio monitro blynyddol. | Cofrestrydd Academaidd<br><br>Dirprwy Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr | Systemau integredig ac effeithlon lle mae data ar gael yn hawdd er mwyn monitro a gwella ansawdd rhaglenni a phrofiad myfyrwyr. | Awst 2026 |

| Meysydd datblygiad parhaus | Gweithredu | Cyfrifoldeb | Canlyniad | Dyddiad targed ar gyfer cwblhau - |
|---|---|---|---|---|
| 1. Yr hyn a wneir i gryfhau dull y Brifysgol o reoli darpariaeth gydweithredol. | Cwblhau a chael cymeradwyaeth ar gyfer Cod 12: Cod Ymarfer ar Ddarpariaeth Gydweithredol | Pennaeth yr Uned Sicrhau Ansawdd | Bydd y dull o reoli darpariaeth gydweithredol yn cael ei gryfhau. | Mai 2025 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ymwreiddio gwaith yr Is-grŵp Darpariaeth Gydweithredol | Pennaeth yr Uned Sicrhau Ansawdd | | Parhaus |
| | Sicrhau bod y model ariannu ar gyfer partneriaid presennol, wrth gael ei adnewyddu, a phartneriaethau newydd, yn sicrhau darpariaeth gynaliadwy o ansawdd uchel. | Dirprwy i'r Is-ganghellor - Ymgysylltu Byd-eang | | Parhaus |
| | Sicrhau y cynhwysir adnoddau effeithiol ar gyfer darpariaeth gydweithredol yn Achos Busnes dros Newid 2025, a symud ymlaen drwy'r broses gynllunio flynyddol. | Cofrestrydd Academaidd Dirprwy Is-ganghellor - Pennaeth pob coleg | | Mai 2025 |
| | Ymgorffori swyddogaeth newydd y Deoniaid Ymgysylltu Byd-eang ar draws y sefydliad. | Dirprwy i'r Is-ganghellor - Ymgysylltu Byd-eang | | Medi 2025 |
| | Amlinellu swyddogaeth Undeb y Myfyrwyr i bob partner cydweithredol. | Pennaeth yr Uned Sicrhau Ansawdd | | Rhagfyr 2025 |
| | Datblygu a darparu hyfforddiant i staff academaidd ar brosesau | Deoniaid Ymgysylltu Byd-eang/Pennaeth yr Uned Gwella Ansawdd | | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sy'n ymwneud â darpariaeth fasnachfraint/ddilysu.<br><br>Sicrhau bod data Addysg Drawswladol wedi'i gynnwys yn y system cofnodion myfyrwyr. | Y Cofrestrydd Academaidd | | Mehefin 2025 |